NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Is-thalamotomi uwchsain penodol sydd wedi'i arwain gan MRI ar gyfer trin clefyd Parkinson

18 Rhagfyr 2024

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon. Mae hyn am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am yr ymchwil.

Clefyd sy'n niweidio’r ymennydd ac sy'n gwaethygu dros amser yw clefyd Parkinson. Mae'n achosi symptomau fel cryndod, anystwythder ac mae'n arafu symudiadau. Mae'r driniaeth hon yn defnyddio uwchsain pwerus iawn i ddinistrio meinwe mewn ardal o'r ymennydd a elwir yn is-thalamws (is-thalamotomi). Defnyddir sganiwr MRI i arwain yr uwchsain er mwyn iddo ganolbwyntio ar yr ardal gywir. Y nod yw lleihau symptomau clefyd Parkinson.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**
Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**
- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?

- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall tudalen we y GIG ar glefyd Parkinson fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall Parkinson's UK, 0808 800 0303, roi cyngor a chymorth i chi.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio beth mae dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil yn ei olygu.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-9008-5